Cofnodion y cyfarfod ar 20fed o Ionawr 2026

Yn bresennol oedd Arwyn Ellis, Eryl Evans, Generys Roberts, Llyr Jones, Gethin Jones a Helen Jones (cadeirydd) cafwyd ymddiheuriadau gan Medwyn Roberts a Cyn Gwennol Ellis.

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe'u harwyddwyd yn gywir.

Datgan diddordeb ir Agenda Neb.

Gohebiaeth
**Cyngor B Sirol Conwy** - cafwyd ymateb in llythyr a anfonwyd yn datgan ein siom ir cyfraniad a ddisgwilir ir Cyngor Bro ei cyfrannu tuag at costau rhedeg y llyfrgell Uwchaled, cafwyd ateb yn dynodi bod am leihau y swm a ofynwyd i £596.00 am eleni gan godi eto flwyddyn nesaf i £691.00. Derbyniwyd hyn gan y cynghorwyr.
**LLywodraeth Cymru** - yn nodi gwariant fesul etholwr adran 137. Wedi ei nodi.
**Cyngor B Sirol Conwy -** precept am y flwyddyn 26/27 ar ol trafod y cynllun gwariant am y flwyddyn ger bron y Cynghorwyr pasiwyd i ofyn am £7,50.00 gan ysturied efallai cost etholiad Mis Mai.
**Nick Ferguson** - anfoneb £16.79 pasiwyd iw dalu.
**Defib Store –** mae'r clerc wedi talu am y rhain er mwyn wi harchebu cyn ir padiau ddiweddu iw hoes fis Rhagfyr - pasiwyd i dalu ir clerc yr anfoneb yma. £154.80
**Sgip Lelo-** cafwyd anfoneb am y sgip a gafwyd yn mis Tachwedd £312.00 pasiwyd iw dalu.
**Dwr Cymru** - anfoneb £91.28 wedi ei dalu DD
**Canolfan Maggies –** gwanaethbwyd siec o £230.00 fel cyfraniad o elw y Tan Gwyllt a Raffl swper dolig y pensiynwyr.
**Elusen Cymunedol Llanfihangel -**cafwyd cyfraniad o £324.00 ir Tan Gwyllt ac £154.80 am y padiau diffub ir ardal.
**Cyngor B Sirol Conwy –** Cafwyd y precept olaf ir flwyddyn sydd wedi bod £2333.00.
**Cyflog y Clerc -** trafodwyd y cyflog a penderfynwyd i dalu cyflog y clerc ar pwynt 18 sef £16.35 yr awr (3 awr yr wythnos)
**Coeden Nadolig -** nid oedd gan Dewi a Haf Jones eisiau dim am gost trydan ir goleuadau y goed ond eu dymuniad yw rhoi cyfranaid i ysgol Cerrig y Drudion pasiwyd i gyfrannu £50.00.
**Unrhyw fater arall**
**Pont y Crown -** cafwyd cyfarfod am 6.45 ar 20fed o Ionawr yn y Crown ir cyhoedd. Roedd Gwyn Parry a Gerallt James o Chyngor Conwy yn bresennol ynghyd a Cyngh Gwennol Ellis, trafodwyd y ffordd ymlaen a daeth cwestiynnau or cyhoedd i leisio ei barn, gobeithi r cychwyn yn y dyfodol agos gan nodi bydd rhaid cau y ffordd am gyfnod o ddim mwy na 12 wythnos gyda llwybr troed ar gael i deithio ar y bont tra bod gwaith yn cael ei gynnal, er mwyn hwylsuo peth or anhawster cau y ffordd.